Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Cynllun gadael

Mae'r cynllun gweithgareddau hwn yn tanlinellu pa mor bwysig yw rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan ganolbwyntio ar lifogydd, y peryglon a ddaw yn ei sgil a'r hyn y gallwch ei wneud cyn, yn ystod ac ar ôl llifogydd.



Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ymhob agwedd ar ei waith. Mae hyn yn cynnwys gofalu am yr aer, y tir, y dŵr, y bywyd gwyllt, y planhigion a'r pridd er mwyn gwella lles Cymru a rhoi gwell dyfodol i bawb.

## Amcanion

**Erbyn diwedd y gweithgaredd hwn, bydd y dysgwyr yn gallu:**

- **Trafod a rhestru syniadau ynghylch sut i'w paratoi eu hunain a'u cartrefi ar gyfer llifogydd**
- **Trafod a rhestru â phwy y dylent gysylltu a'r camau y gallent eu cymryd i leihau unrhyw ddifrod**

## Yr amser sydd ei angen ar gyfer y gweithgaredd

25 munud

## Lleoliad

Unrhyw le

addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiol.cymru

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Cysylltiadau â'r cwricwlwm

### Daearyddiaeth CA2

**Deall lleoedd, prosesau ac amgylcheddau**

3. Disgrifiwch yr hyn sydd wrth wraidd sut y mae lleoedd ac amgylcheddau'n newid, ynghyd â'r canlyniadau

**Ymchwilio**

Arsylwch a gofynnwch gwestiynau ynghylch lle arbennig, e.e. – pam y mae'n dioddef llifogydd?

### ABCh

**Dinasyddiaeth weithgar**

Trysori teuluoedd a chyfeillion fel ffynhonnell cydgefnogaeth

**Iechyd a lles emosiynol**

Pwysigrwydd diogelwch personol

### Daearyddiaeth CA3

**Deall lleoedd, prosesau ac amgylcheddau**

2. Esboniwch achosion ac effeithiau prosesau ffisegol a dynol a sut y mae'r prosesau'n perthyn i'w gilydd

**Astudiaeth**

Y byd peryglus

### ABCh

**Dinasyddiaeth weithgar**

Materion lleol a byd-eang cyfamserol

**Iechyd a lles emosiynol**

Arddangos agwedd gyfrifol tuag at gadw'r corff a'r meddwl yn ddiogel ac iach

**Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang**

Materion byd-eang sy'n bygwth y blaned

## Offer ac adnoddau

- **Pensiliau a phapur**
- **Llyfryn beth i'w wneud cyn, yn ystod ac ar ôl llifogydd**
- **Cynllun llifogydd personol**

**Gellir lawrlwytho'r rhain i gyd oddi ar y dudalen ganlynol:**
https://naturalresources.wales/flooding/what-to-do-before-a-flood/?lang=cy

## Yr hyn y dylid ei wneud

- Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau bach a rhowch bensil a phapur i bob grŵp.
- Gofynnwch iddynt ddychmygu bod yr ardal y maen nhw'n byw ynddi wedi cael rhybudd llifogydd a'u bod wedi cael eu gorchymyn i adael o fewn awr. Mae eich bag argyfwng yn barod, ond beth arall fyddech chi'n ei wneud?

Ystyriwch y canlynol:
- Pobl y dylech gysylltu â nhw
- Pethau y gallech fod eisiau eu symud o gyrraedd y dŵr
- Unrhyw ystyriaethau eraill

- Adborth a thrafod yr atebion

**Cwestiynau allweddol a awgrymir**

- Pa eitemau sydd bwysicaf i chi a'ch teulu?
- Am faint o amser y gallech orfod gadael eich cartref?
- I ble y gallech orfod mynd? (Gallai hyn gynnwys canolfan arbennig, gwesty neu Wely a Brecwast, neu aros gyda theulu)

## Addasu ar gyfer anghenion/galluoedd arbennig

Llai abl
- Gwnewch y gweithgaredd fel un grŵp
- Rhowch eitem arbennig i bob grŵp ei ystyried, e.e. car, eiddo personol. Yna, rhowch adborth i'r grŵp cyfan ynghylch yr hyn y gallech ei wneud gyda phob eitem.

Mwy abl
- Gofynnwch i'r dysgwyr greu cynllun llifogydd personol.

## Gweithgaredd dilynol/estynedig

- Rhowch gynnig ar y gweithgaredd *Canlyniad Llifogydd*

## Gwybodaeth ychwanegol

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) Swyddogion Ymgysylltu Ymwybyddiaeth Llifogydd sy'n gweithio gyda chymunedau sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd.

I gael mwy o wybodaeth, edrychwch ar wefan CNC:
https://naturalresources.wales/our-evidence-and-reports/maps/flood-risk-map/?lang=cy

Os oes angen y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall, er engraifft mewn print bras neu mewn iaith arall, cysylltwch ag:
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk 0300 065 3000
www.cyfoethnaturiol.cymru

Mae coetiroedd Llywodraeth Cymru wedi'u hardystio'n unol â rheolau'r Forest Stewardship Council®
Welsh Government woodlands have been certified in accordance with the rules of the Forest Stewardship Council®
FSC® C-115912
Argraffwyd ar bapur Revive Offset wedi'i ailgylchu 100%
Printed on Revive offset 100% recycled paper
FSC® C008921
NRWRC000